

CYMDEITHASEG

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: Atebwch 2 gwestiwn.

1. Defnyddiwch enghreifftiau penodol i drafod sut mae syniadau am yr hunan yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at yr 'arall'.
 2. I ba raddau y mae globaleiddio'n newid hunaniaeth unigolion a grwpiau?
 3. Defnyddiwch enghreifftiau penodol i drafod sut y gallai ymdriniaeth gymdeithasegol ein helpu i ddeall y cysylltiad rhwng grym a gwrthwynebiad.
 4. Sut mae newid cymdeithasol yn digwydd?
 5. Mae polisi amlddiwylliannaeth y Deyrnas Unedig wedi methu. Trafodwch.
 6. Sut mae ymdriniaeth gymdeithasegol yn ein helpu i ddeall sut y mae anghydraddoldebau cymdeithasol yn cael eu creu a sut y gellid eu lliniaru?
 7. Beth yw'r sefydliadau allweddol sy'n helpu i ddiffinio categorïau cymdeithasol? Defnyddiwch NAILL AI rhywedd NEU hil fel enghraifft yn eich ateb.
 8. Trafodwch sut y gallai ymdriniaeth gymdeithasegol efallai helpu i wella un maes o bolisi cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.
 9. Yn eich barn chi, pa athronydd wnaeth y cyfraniad mwyaf arwyddocaol i'n dealltwriaeth am Gymdeithaseg a materion cymdeithasegol? Rhaid ichi gyfiawnhau'ch dewis.
 10. Honnodd Margaret Thatcher, cyn Brif Weinidog y DU, nad oedd y fath beth â chymdeithas. Ysgrifennwch draethawd sy'n cefnogi ei dadl hi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol.
-